# CYD-CYFARFOD O PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET / ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT

**(Via Microsoft Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | S.K.Hunt, N.T.Hunt, D.Keogh, S.Rahaman, S.E.Freeguard, S.A.Knoyle, S.Harris, A.Llewelyn, J.Hale, S.Miller, W.F.Griffiths, S.Paddison, S.M.Penry, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, J.Jones, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, R.L.Taylor, M.Crowley, D.Whitelock, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, T.Davies, H.Jones, M.Shaw, J.Stevens, PWalker, N.Blackmore, N.Pearce a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave, C.Clement-Williams, P.D.Richards, P.A.Rees, A.R.Lockyer, E.V.Latham, L.Jones, D.Jones a/ac M.Harvey |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd Sean Pursey<br>Cynghorydd Rob G. Jones<br>Cynghorydd Carolyn Edwards<br>Cynghorydd Chris Williams |

---

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Sonia Reynolds yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Cynigiwyd, eiliwyd a phenderfynwyd mai'r Cynghorydd Saifur Rahaman fyddai'r Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Wyndham Griffiths | Parthed: | Cyflwyno'r Gwasanaethau Hamdden yn y dyfodol gan ei fod yn aelod o Hamdden Celtic ond mae ganddo hawl i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. Simon Knoyle | Parthed: | Cyflwyno'r Gwasanaethau Hamdden yn y dyfodol gan ei fod yn aelod o Hamdden Celtic ond mae ganddo hawl i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. Rebecca Phillips | Parthed: | Cyflwyno'r Gwasanaethau Hamdden yn y dyfodol gan ei bod yn aelod o Hamdden Celtic ond mae ganddi hawl i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. Arwyn Woolcock | Parthed: | Cyflwyno'r Gwasanaethau Hamdden yn y dyfodol gan ei fod yn Gadeirydd Cenedlaethol ar gyfer y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus ond mae ganddo hawl i siarad a phleidleisio. |
| Y Cyng. Nigel Hunt | Parthed: | Cyflwyno'r Gwasanaethau Hamdden yn y dyfodol gan ei fod yn aelod o Hamdden Celtic ond mae ganddo hawl i siarad a phleidleisio. |

## 3. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Cyn dechrau'r sesiwn breifat, gofynnodd yr aelodau ynghylch y posibilrwydd o drafod yr adroddiad yn ystod sesiwn gyhoeddus. Yn dilyn cyngor cyfreithiol ynghylch cyfrinachedd yr wybodaeth ariannol fel y nodwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad preifat, cytunodd yr aelodau ar y datrysiad canlynol:

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

4. **CYFLWYNO'R GWASANAETHAU HAMDDEN YN Y DYFODOL (WEDI'I AMGÁU YM MHAPURAU'R CABINET)**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad am fodel cyflwyno yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau hamdden fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Cyn dechrau trafod yr adroddiad, cododd aelodau bryderon ynghylch y diffyg manylder yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a effeithiodd felly ar eu gallu i ystyried yr adroddiad a chraffu arno yn ei gyfanrwydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:

- Bydd y Pwyllgor Craffu'n argymell i'r Cabinet y dylid gohirio trafod yr eitem heddiw ac y dylid cynnull cyfarfod ychwanegol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet o fewn y pythefnos nesaf. Nod y cyfarfod hwn fydd egluro a pharatoi’n drefnus yr wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen i ategu'r adroddiad presennol, a gall aelodau’r pwyllgor ar yr adeg hon benderfynu ar y ffordd orau o drefnu eu hunain er mwyn cyflawni hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd pleidlais wedi'i chofnodi a chytunwyd arni’n unol â'r gweithdrefnau gofynnol.

Cynhaliwyd pleidlais i benderfynu pa aelodau oedd yn erbyn y cynnig a gynigir neu'n ymatal. Roedd canlyniadau'r bleidlais fel a ganlyn:

<u>O blaid y cynnig</u>

M Crowley, S Freeguard, S Harris, J Jones, D Keough, S Miller, S Paddison, S Penry, M Protheroe, S Rahaman, S Renkes, S Reynolds, R Taylor, D Whitelock, A Woolocock

<u>Yn erbyn y cynnig</u>

W Griffiths, J Hale, N Hunt, S Hunt, S Knoyle, A Llewelyn, R Phillips, L Purcell, A Richards, R Wood

<u>Ymataliadau</u>

Dim

Yn dilyn y broses graffu, roedd mwyafrif y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig canlynol i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet:

- Bydd y Pwyllgor Craffu'n argymell i'r Cabinet y dylid gohirio trafod yr eitem heddiw ac y dylid cynnull cyfarfod ychwanegol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet o fewn y pythefnos nesaf. Nod y cyfarfod hwn fydd egluro a pharatoi’n drefnus yr wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen i ategu'r adroddiad presennol, a gall aelodau’r pwyllgor ar yr adeg hon benderfynu ar y ffordd orau o drefnu eu hunain er mwyn cyflawni hyn.

**CADEIRYDD**